

Polisi Rheoli Data Ymchwil 2024

Cymeradwywyd 11 Gorffennaf 2024, Bwrdd Academaidd: 23.116.5



Cynnwys

| | |
|--|----------|
| Cyflwyniad | 2 |
| Pwrpas | 2 |
| Cwmpas | 2 |
| Diffiniadau | 2 |
| Egwyddorion..... | 3 |
| Casgliad | 3 |
| Perchnogaeth | 3 |
| Trefniadaeth a Mesurau Technegol | 3 |
| Cynlluniau Rheoli Data ac Asesiadau o’r Effaith ar Ddiogelu Data | 3 |
| Storio 5 | |
| Rhannu Data..... | 5 |
| Trosglwyddo Data y Tu Allan i'r UE | 6 |
| Cadw 6 | |
| Gwaredu..... | 7 |
| Mynediad | 7 |
| Data FAIR | 7 |
| Adrodd ar Ddigwyddiad/Tor Diogelwch Data | 8 |
| Polisiâu, Gweithdrefnau, Deddfwriaeth Arall..... | 8 |
| Polisi a Gweithdrefn Prifysgol Wrecsam | 8 |
| Deddfwriaeth | 8 |



Cyflwyniad

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o ran moeseg, trylwyredd ac uniondeb yn ei holl ymchwil. Mae'n ceisio diogelu urddas, hawliau a lles pawb sy'n ymwneud â'r gwaith ymchwil y mae'n ei gynhyrchu. Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei dyletswydd i ddiogelu cyfrinachedd data ymchwil personol yn unol â'i chyfrifoldebau o dan [Ddeddf Diogelu Data 2018](#) a Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018 (GDPR y DU). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn diffinio cyfrifoldeb y Brifysgol i sicrhau bod mesurau sefydliadol a thechnegol priodol ar waith i ddiogelu data personol.

Rhaid i unrhyw brosiect ymchwil sy'n casglu data gan gyfranogwr dynol neu'n casglu neu'n prosesu data personol gael cymeradwyaeth foesegol ffurfiol gan y Brifysgol a chydymffurfio â [Pholisi Diogelu Data a Gwaredu Data'r Brifysgol](#).

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod data ymchwil yn ased gwerthfawr. Mae'n nodi bod cynnal data cywir ac adferadwy o'r gymuned ymchwil yn arfer gorau, gan gydnabod bod rhannu data ymchwil yn hanfodol i effaith, gwelededd, tryloywder, ymddiriedaeth a throsglwyddo gwybodaeth ymchwil y Brifysgol.

Mae Prifysgol Wrecsam yn cefnogi Egwyddorion Cyffredin UKRI ar Ddata Ymchwil, gan gydnabod bod data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus yn fudd cyhoeddus, wedi'i gynhyrchu er budd y cyhoedd er budd cymdeithasol a, lle bo'n bosibl, ei fod ar gael yn agored gyda chyn lleied o gyfyngiadau ag sy'n bosibl mewn modd amserol a chyfrifol.

Pwrpas

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r egwyddorion y dylai staff a myfyrwyr Prifysgol Wrecsam eu dilyn wrth brosesu data ymchwil drwy gydol oes yr ymchwil. Mae'r Polisi'n hyrwyddo arfer da wrth reoli data ymchwil, gan feithrin cyfrifoldeb dros baratoi Cynlluniau Data Ymchwil a sicrhau bod data ymchwil yn cael ei storio, ei gadw, ei gyrchu a'i waredu'n ddiogel, gan gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a moesegol, polisi'r Brifysgol a, lle bo'n berthnasol, gofynion cyrff ariannu.

Mae'r Polisi'n diffinio'r cyfrifoldebau unigol a sefydliadol a ddylai lywio gwaith y rhai sy'n ymwneud â chasglu, curadu, storio a chynnal data ymchwil. Mae'n nodi ar ba sail y bydd staff a myfyrwyr y Brifysgol yn prosesu unrhyw ddata personol a gesglir gan wrthrychau data wrth gynnal ymchwil neu a ddarperir i'r rhai sy'n cynnal ymchwil gan wrthrychau data neu ffynonellau eraill am yr un peth.

Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i holl staff a myfyrwyr Prifysgol Wrecsam sy'n ymgymryd ag ymchwil, p'un a yw'r ymchwil yn cael ei hariannu ai peidio ac a yw'r data a gesglir yn cynnwys casglu neu brosesu data personol. Mae'r Polisi'n cwmpasu'r holl ddata a gasglwyd yn ystod astudiaeth ymchwil a phob aelod o'r Brifysgol sy'n ymwneud â chreu, casglu a churadu data ymchwil o dan nawdd y Brifysgol, gan gynnwys aelodau sesiynol, ymweld neu emeritws, cymdeithion, mygedol, contractwyr, ymgynghorwyr neu wirfoddolwyr.

Diffiniadau

At ddibenion y Polisi hwn, diffinnir data ymchwil fel yr hyn sy'n cael ei gasglu, ei arsylwi, neu ei greu at ddibenion dadansoddi a chynhyrchu canlyniadau ymchwil gwreiddiol.



Data ymchwil o'r fath yw'r wybodaeth a gofnodwyd, ni waeth ba ffurf neu gyfrwng y gallant fodoli ynddynt, sy'n angenrheidiol i gefnogi neu ddilysu arsylwadau, canfyddiadau neu allbynnau prosiect ymchwil. Yn ymarferol, gall natur data ymchwil amrywio'n fawr yn dibynnu ar y ddisgyblaeth. Gall fod yn destunol, yn rhifiadol, yn ansoddol, yn feintiol, yn derfynol, yn rhagarweiniol, yn ffisegol, yn ddigidol neu'n brint. Daw data ymchwil mewn sawl fformat, gan gynnwys dogfennau prosesydd geiriau, PDF, taenlenni, llyfrau labordy wedi'u sganio, arolygon ar-lein, recordiadau digidol, cronfeydd data neu feddalwedd cyfrifiadurol.

Egwyddorion

Casgliad

Rhaid i ddata ymchwil gael ei gasglu'n gyfrifol, gan ddefnyddio'r dulliau a'r technegau cywir i ddiogelu cyfanrwydd eich data. Rhaid casglu data ymchwil yn unol â chymeradwyaeth foesegol prosiect ymchwil a rhwymedigaethau cyfreithiol Deddf Diogelu Data 2018.

Perchnogaeth

Ar gyfer ymchwil a wneir o dan grant neu gontract neu sy'n cynnwys cydweithio â sefydliad neu barti allanol arall, telerau'r cytundeb fydd yn pennu perchnogaeth a hawliau'r data. Argymhellir bod unrhyw gontract gyda pharti allanol yn nodi'r broses ar gyfer Rheoli Data Ymchwil ar y cyd ag egwyddorion y Polisi hwn.

Lle nad oes contract allanol a dim hawliau eiddo deallusol yn bodoli, mae'r Brifysgol yn berchen ar y data a gynhyrchir yn ystod ymchwil a gynhelir o dan nawdd y Brifysgol gan aelodau staff a gyflogir ganddi a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Pan fydd myfyrwyr a addysgir yn cynhyrchu data o dan oruchwyliaeth aelod o staff fel rhan o brosiect a ariennir, y Brifysgol fydd yn berchen ar y data neu yn unol â thelerau'r contract.

Trefniadaeth a Mesurau Technegol

Mae Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn nodi'r broses adolygu a chymeradwyo foesegol i sicrhau bod ymchwil y Brifysgol yn cael ei chynnal er budd y cyhoedd a'i bod yn gyfreithlon o dan GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data. Rhaid i'r holl staff a myfyrwyr sy'n cynnal ymchwil o fewn cwmpas y Polisi Moeseg Ymchwil geisio cymeradwyaeth foesegol cyn dechrau casglu a phrosesu data.

Cynlluniau Rheoli Data ac Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Dylid cwblhau Cynlluniau Rheoli Data (DMP) cyn dechrau pob prosiect ymchwil. Dylai'r DMP fynd i'r afael â math, maint, storio, cyfrinachedd, cadw, rhannu, adneuo, aildefnyddio ac uniondeb y data drwy gydol oes y prosiect. Mae'r Prif Ymchwilydd neu Oruchwylwr yn gyfrifol am greu a pherchnogi cynllun rheoli data ymchwil a sicrhau bod y tîm ymchwil llawn a'r cydweithwyr yn ymwybodol ohono ac yn glynu wrtho.

Mae llawer o gyllidwyr yn ei gwneud yn ofynnol i ymchwilwyr gyflwyno cynllun rheoli data fel rhan o'r broses ymgeisio. Dylai ymchwilwyr barchu polisiau rheoli data'r cyllidwr/cyllidwyr a phartion allanol



eraill. Mae llawer o arianwyr ymchwil cyhoeddus, gan gynnwys holl Gyngorau Ymchwil y DU, yn derbyn bod rheoli data ymchwil yn draul ymchwil ddilys.

Dylai prosiectau ymchwil sydd angen cymeradwyaeth foesebol ddefnyddio'r cynllun rheoli data a ddarperir yn y ffurflen gais ar-lein am gymeradwyaeth foesebol. Dylai prosiectau nad oes angen cymeradwyaeth foesebol arnynt gwblhau Templed Cynllun Rheoli Data Prifysgol Wrecsam. Wrth baratoi cais, dylai ymchwilwyr sy'n gwneud cais am gyllid ystyried y telerau a'r gofynion a restrir yn nogfennau polisi'r cyllidwr. Gall ymchwilwyr gael gafael ar [DMPOnline](#) i weld templedi'r cynllun rheoli data yn seiliedig ar y gofynion a restrir yn nogfennau polisi'r cyllidwr.

Mae GDPR y DU yn creu rhwymedigaeth gyfreithiol i feddwl am faterion diogelu data a materion preifatrwydd a'u lliniaru yn ystod cam cynllunio'r prosiect cyn casglu unrhyw ddata. Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) yn asesiad i helpu ymchwilwyr i nodi unrhyw risgiau posibl y gallai prosiect eu hwynebu o ran tarfu ar breifatrwydd cyfranogwyr. Mae'r DPIA wedyn yn helpu i roi mesurau a rheolaethau priodol ar waith i leihau a rheoli'r risgiau hynny. Mae'r ddeddfwriaeth wedi gwneud DPIA yn orfodol ar gyfer prosesu data risg uwch i sicrhau bod preifatrwydd a diogelu data yn ystyriaethau allweddol o ddechrau unrhyw brosiect ac yna'n cael eu hystyried drwy gydol oes y prosiect.

Mae'r [Comisiwn Ewropeaidd \(Ymchwil ac Arloesi DG\)](#) yn argymhell cynnal DPIA ar gyfer gweithrediadau prosesu data a allai olygu risgiau moesegol uwch, megis:

| | |
|---|---|
| Mathau o Ddata Personol | Tarddiad hiliol neu ethnig Safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol Data genetig, biometrig neu iechyd Bywyd Rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol Aelodaeth o Undebau Llafur |
| Gwrthrychau Data | Plant Pobl agored i niwed Pobl nad ydynt wedi rhoi eu caniatâd penodol i gymryd rhan yn y prosiect |
| Maint neu gymhlethdod y data Prosesu | Prosesu data personol ar raddfa fawr Monitro ardal sy'n agored i'r cyhoedd yn systematig ar raddfa fawr Ymwneud â nifer o setiau data a/neu ddarparwyr gwasanaethau neu gyfuno a dadansoddi setiau data gwahanol (data mawr) |
| Casglu neu brosesu data Technegau | Dulliau neu dechnolegau sy'n tarfu ar breifatrwydd (arsylwi cudd, gwyliadwriaeth, tracio neu dwyllo unigolion) Defnyddio systemau camera i fonitro ymddygiad neu gofnodi gwybodaeth sensitif. Cloddio data (gan gynnwys data a gasglwyd o rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol), chwilio'r we neu ddadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol. Proffilio unigolion neu grwpiau (proffilio ymddygiadol neu seicolegol yn benodol) |

| | |
|--|---|
| | Defnyddio deallusrwydd artiffisial i ddadansoddi data personol Defnyddio proses gwneud penderfyniadau awtomataidd sy'n cael effaith sylweddol ar wrthrych/gwrthrychau'r data |
| Cyfranogiad gwledydd y tu allan i'r UE | Trosoglwyddo data personol i wledydd y tu allan i'r UE Casglu data personol y tu allan i'r UE |

Mae sgrinio DPIA wedi'i gynnwys ym mhroses gymeradwyo'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil. Fodd bynnag, bydd rhai cyllidwyr angen DPIA ar wahân, y dylid ei gwblhau gan ddefnyddio [Templed Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data y Brifysgol](#) neu un a ddarperir gan y cyllidwr os nodir hynny. Mewn achosion lle nad oes angen adolygiad moesegol ar brosiect ymchwil, rhaid i ymchwilwyr gwblhau sgriniad DPIA o hyd ac, os oes angen, asesiad llawn, y mae'n rhaid ei awdurdodi gan y [Swyddog Diogelu Data](#).

Mae'r Brifysgol yn mynnu bod Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) yn cael ei gwblhau cyn dechrau prosiect ymchwil sy'n debygol o arwain at risg uchel i unigolion. Mae'r broses DPIA yn ofyniad cyfreithiol ac yn offeryn pwysig i'ch helpu i nodi a lleihau risgiau diogelu data prosiect sy'n ymwneud â phrosesu data personol. Dylai ymchwilwyr gyfeirio at [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) i gael rhagor o wybodaeth am y diffiniad o brosesu data risg uchel a thempled a dogfen ganllaw Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data Prifysgol Wrecsam.

Storio

Rhaid storio'r holl ddata ymchwil mewn amgylchedd a reolir gan y brifysgol drwy gydol oes y prosiect. Mae amgylchedd a gymeradwywyd gan y Brifysgol yn diogelu data ymchwil rhag achos o dor diogelwch data, colli a llygru data, a mynediad heb awdurdod, ac yn gwarantu diogelwch a chywirdeb data ymchwil a gwybodaeth cyfranogwyr. Mae'r Brifysgol yn argymhell bod data ymchwil a gesglir gan staff neu fyfyrwyr yn cael ei storio ar yriant preifat y Brifysgol (gyriant Z), gyriant a rennir (gyriant Y), neu'r Brifysgol yn y cwmwl (Teams a OneDrive). Dylid storio data ymchwil ffisegol ar safle'r Brifysgol mewn amgylchedd diogel bob amser. Dylai ymchwilwyr sy'n gweithio o bell gyfeirio at yr egwyddorion a'r canllawiau a amlinellir ym [Mholisi Gweithio o Bell a Symudol y Brifysgol](#)

Rhannu Data

Pan fydd prosiectau ymchwil arfaethedig yn cynnwys cydweithio â thrydydd partïon (e.e. prifysgol arall, Ymddiriedolaeth GIG neu bartneriaid allanol eraill) a rhannu data personol, data categori arbennig, euogfarnau troseddol neu ddata troseddau neu ddata dan ffugenw, rhaid rhoi cytundeb rhannu data neu gontract priodol ar waith cyn i unrhyw ddata gael ei gyfnwid.

Mae Cytundebau Rhannu Data yn nodi'r fframwaith ar gyfer rhannu data a dogfennau personol, pwrpas y rhannu, yn ymdrin â'r hyn sy'n digwydd i'r data ar bob cam ac yn



sefydlu safonau sy'n helpu'r holl bartïon sy'n ymwneud â rhannu i fod yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau.

- Mae angen '[Cytundeb Rhannu Data](#)' lle mae'r Brifysgol a'r parti arall yn Rheolyddion Data neu'n Rheolyddion ar y Cyd ac yn bwriadu rhannu gwybodaeth bersonol yn rheolaidd rhyngddynt.
- Mae angen '[Cytundeb Prosesu Data](#)' pan mai'r Brifysgol yw'r rheolydd data ac mae'n contractio cwmni allanol i ymgymryd â thasg sy'n cynnwys prosesu data personol ar ei ran.

Trosglwyddo Data y Tu Allan i'r UE

Nid yw GDPR y DU yn caniatáu trosglwyddo data personol y tu allan i'r UE na gwlad heb warchodaeth ddigonol heb fodloni amod fel cydsyniad penodol neu gontract rhwymol. Rhaid i ymchwilwyr bob amser, felly, gael caniatâd penodol neu wneud data'n ddiennw cyn anfon data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (yr UE ynghyd â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein). Mae rhai gwledydd a restrwyd gan yr UE wedi bod yn destun penderfyniadau digonolrwydd (ym mis Ionawr 2021, sef Andorra, Yr Ariannin, Canada, Ynysoedd Faroe, Guernsey, Israel, Ynys Manaw, Japan, Jersey, Seland Newydd, Gweriniaeth Corea, y Swistir, Y Deyrnas Unedig, Wrwgwái, ond gall y rhestr newid gydag amser).

Ar hyn o bryd, ystyrir bod y DU yn ddigonol at ddibenion diogelu data tan 2025. Ym mhob achos, dylai ymchwilwyr ddefnyddio diogelwch cyfrinair neu amgryptio lle bo'n bosibl wrth drosglwyddo, ond cofiwch y bydd angen defnyddio allwedd i amgryptio mewn rhai gwledydd os bydd data personol yn cael ei drosglwyddo iddynt.

Cadw

Rhaid i brosiectau ymchwil a ariennir gydymffurfio ag unrhyw gyfnodau cadw a bennir gan ofynion y cyllidwr. Os nad yw cyllidwr yn nodi cyfnod cadw neu os nad yw prosiect yn cael ei ariannu, dylid cadw data ymchwil a gynhyrchir gan aelod staff am o leiaf 10 mlynedd o'r adeg casglu, creu neu gynhyrchu'r data ymchwil, lle bo hynny'n briodol. Mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol bod data sy'n sail uniongyrchol i unrhyw ganfyddiadau cyhoeddus yn cael ei storio am o leiaf y cyfnod hwn i gefnogi neu ddilysu arsylwadau, canfyddiadau neu allbynnau prosiect ymchwil.

Dylid cadw data ymchwil a gesglir gan fyfyrwyr Prifysgol Wrecsam hyd at adeg y cyfnod asesu. Dylid cadw data ymchwil a gesglir gan fyfyrwyr yn y Brifysgol i gefnogi cyhoeddiad posibl yn y dyfodol am 10 mlynedd. Cyfrifoldeb y goruchwyliwr yw sicrhau bod unrhyw ddata ymchwil personol a gesglir gan fyfyrwyr wedi'i ddileu a bod unrhyw ddata a gedwir yn cael ei storio'n briodol.

Lle bo'n briodol, rhaid cynnig ac asesu data ymchwil i'w gyflwyno a'i gadw mewn gwasanaeth data cenedlaethol neu ryngwladol neu ystorfa pwnc.

Mae polisiau data Cynghorau Ymchwil Unigol a chyllidwyr eraill a chanllawiau arfer ymchwil da yn darparu gofynion ychwanegol a dylid ymgynghori â nhw, yn ogystal â chyfnodau cadw a nodir ym mhob Cynllun Rheoli Data Ymchwil. Mewn llawer o achosion, bydd ymchwilwyr yn penderfynu cadw data a chofnodion ymchwil am gyfnod hirach na'r gofyniad sylfaenol. Dylai ymchwilwyr nodi y gellir cadw data



personol mewn ffurf nad yw'n ddiennw am ddim hirach na'r hyn sy'n angenrheidiol at ddibenion prosesu'r data personol.

Gwaredu

Rhaid gwaredu a dinistrio data ymchwil yn unol â [Pholisi Diogelu Data a Gwaredu Data'r Brifysgol](#). Dylid cynnwys yr amser a'r broses gwaredu data y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Rheoli Data ac unrhyw ddogfennau sydd ar gael i gyfranogwyr. Os yw data wedi cael ei rannu â phartneriaid neu wedi cael ei drosglwyddo i drydydd partion yn ystod y prosiect, dylai ymchwilwyr sicrhau eu bod wedi eu dileu oni bai bod ganddynt sail gyfreithlon dros eu cadw.

Mynediad

Mae Prifysgol Wrecsam yn cydnabod manteision gwneud Data Ymchwil yn hygyrch i'r cyhoedd a'r gymuned academiaidd ehangach.

Dylid cyfyngu mynediad at ddata ymchwil yn ystod prosiect ymchwil i gydweithredwyr y prosiect ymchwil neu ddarparu mynediad pan fydd y cymeradwyaethau rhannu data cywir ar waith.

Dylid ystyried mynediad at ddata ymchwil ar ôl i brosiect ymchwil ddod i ben mewn perthynas â chyfyngiadau moesegol, cyfrinachol, sensitif, masnachol, cyfreithiol, rheoleiddiol neu ariannu. Dylai Data Ymchwil a gynhyrchir gan staff Prifysgol Wrecsam fod ar gael yn agored gyda chyn lleied o gyfyngiadau â phosibl lle bo hynny'n briodol. Mae'n bosibl y bydd data ymchwil personol ar gael os yw ar ffurf ddiennw a lle ceir cydsyniad gwybodus i'w rannu.

Mae'r Brifysgol yn argymhell bod setiau data yn cael dynodydd parhaus, fel Dynodydd Gwrthrych Digidol (DOI). Argymhellir hefyd y dylid defnyddio ORCID (ID Ymchwilydd a Chyfrannwr Agored), yn ogystal â defnyddio trwyddedau agored safonol ar gyfer rhannu data ymchwil. Dylai awduron setiau data cyfyngedig hefyd ystyried eu rhoi mewn ystorfa gymeradwy er mwyn helpu i ddarganfod, bodloni gofynion cyllidwyr a sicrhau bod y data ar gael o hyd i fodloni ceisiadau mynediad dilys.

Data FAIR

Lle mae'n gyfreithlon gwneud hynny, mae'r Brifysgol yn cefnogi'r consensws byd-eang y dylai data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus fod ar gael yn agored cyn gynted â phosibl gyda chyn lleied o gyfyngiadau ag y bo angen. Ar ben hynny, mae llawer o gyllidwyr yn y DU ac yn rhyngwladol wedi croesawu egwyddorion FAIR ar gyfer rhannu data, gan wneud data yn

- Canfyddadwy
- Hygyrch
- Rhyngweithredol
- Ailddefnyddiadwy

Er enghraifft, mae Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) wedi cytuno ar set o egwyddorion cyffredin ar gyfer polisiau data ymchwil, sy'n seiliedig ar y disgwyliadau canlynol:

- Mae data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus yn fudd cyhoeddus ac yn cael ei gynhyrchu er budd y cyhoedd.



- Dylid cadw Data sydd â gwerth hirdymor cydnabyddedig er mwyn parhau i fod yn hygyrch ac yn ddefnyddiadwy ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.
- Dylai canlyniadau a gyhoeddir bob amser gynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar y data ategol.
- Dylai data ymchwil o'r fath fod ar gael yn agored gyda chyn lleied o gyfyngiadau â phosibl mewn modd amserol a chyfrifol.

Adrodd ar Ddigwyddiad/Tor Diogelwch Data

Mae GDPR y DU yn mynnu bod Rheolwyr Data yn rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw achos o Dor Diogelwch Data Personol ac, mewn rhai achosion, Gwrthrych y Data. Mae'r Brifysgol wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw amheuaeth o Dor Diogelwch Data Personol a bydd yn rhoi gwybod i Wrthrychau Data a/neu'r Comisiynydd Gwybodaeth lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny. Dylid rhoi gwybod i'r [Swyddog Diogelu Data](#) ar unwaith am unrhyw achosion o dor diogelwch data. Dylai ymchwilwyr gadw'r holl dystiolaeth sy'n ymwneud â Digwyddiad/Tor Diogelwch Data Personol posibl er mwyn galluogi'r Swyddog Diogelu Data i gynnal ymchwiliad.

Rhaid rhoi gwybod i'r [Swyddfa Ymchwil](#) hefyd am bob digwyddiad, achos o dor diogelwch neu golli data ymchwil.

Polisiâu, Gweithdrefnau, Deddfwriaeth Arall
Dylid darllen y Polisi hwn gan gyfeirio at yr isod.

Polisi a Gweithdrefn Prifysgol Wrecsam

- [Polisi Diogelu Data a Gwaredu Data](#)
- [Polisi Diogelwch Gwybodaeth](#)
- [Polisi Diogelwch Data ar gyfer Dyfeisiau Electronig Cludadwy](#)
- [Polisi Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd](#)
- [Polisi Gweithio Symudol ac o Bell](#)
- [Polisi Rheoli Cofnodion](#)

Deddfwriaeth

- [Deddf Diogelu Data 2018](#)
- [GDPR y DU](#)

[Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#)

